“Byddwch wyliadwrus gan hynny, oherwydd ni wyddoch na’r dydd na’r awr.”
(Mathew 25:13)

Dyma eiriau gwerthfawr o rybudd gan y Gwaredwr. Mae’n trafod ei ailddyfodiad, gwirionedd sy’n tueddu i gael ei anwybyddu heddiw gennym. Neges glir y ddameg yw bod rhaid i ni ymbaratoi ymlaen llaw i gael rhan yng ngwledd y nefoedd.

Y pryd hwnnw

Mae’r cyd-destun yn dangos yn amlwg bod Iesu’n sôn am ei ailddyfodiad i’r byd ar ôl bwlch hir o amser. Mae’r gwas yn 24:48 yn gweld y meistr yn oedi, ac ni ddaw’r meistr yn ôl am ‘gryn dipyn o amser’ yn 25:19. Yma hefyd mae’r genethod wedi mynd i gysgu cyn i’r priodfab gyrraedd.

Mae’r neges yn amlwg, sef bod tueddiad gan bobl i feddwl na fydd Crist yn dod nôl, oherwydd bod amser hir yn mynd heibio cyn ei ddyfodiad. Gan fod hyn yn wir ym meddwl llawer heddiw, mae’r ddameg yn amserol a phwrpasol i ni.

Y briodas

Mae Iesu’n defnyddio priodas Iddewig fel darlun o’i ailddyfodiad i gasglu a ‘phriodi’ ei bobl. Mae hyn yn cael ei adleisio yn llyfr y Datguddiad: **“Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo’r gogoniant, oherwydd daeth dydd priodas yr Oen, ac ymbaratôdd ei briodferch ef”** (19:7).
Roedd priodasau Iddewig yn cymryd lle gan amlaf gyda’r nos. Byddai’r priodfab a’i gyfeillion yn gorymdeithio i’r briodas. Roedd ffrindiau’r ferch wedi ymgynnull gyda hi naill ai yn ei chartref hi neu yng nghartref y priodfab. Roedd y seremoni briodasol yn tueddu i gymryd lle yno. Ar ddyfodiad y priodfab, byddai’r merched yn mynd allan i’w gyfarfod gyda’r briodferch, a byddai pawb yn mynd i’r seremoni. Yn y ddameg yma, mae’r priodfab yn hwyr!

Y genethod

Mae Iesu’n darlunio deg geneth yn y ddameg gyda nifer o nodweddion cyffredin: mae pob un yn disgwyl cyfarfod y priodfab a mynd gydag ef i’r briodas; mae gan bob un ei lamp; mae pob un yn disgwyl y priodfab y diwrnod hwnnw; mae pob un yn disgwyl bod yn rhan o’r wledd briodas; mae pob un yn syrthio i gysgu.

Yr esboniad symlaf ar y genethod yw eu bod yn cynrychioli Eglwys Iesu Grist, sef pob un sydd yn proffesu ffydd ynddo, ac felly yn disgwyl ei ddyfodiad

ac yn disgwyl bod gydag ef yn y nef.

Mae Iesu hefyd yn nodi un gwahaniaeth sylfaenol rhwng y merched ifainc: mae eu hanner wedi dod ag olew i'w lampau, a phump wedi dod â lampau heb olew. Mor ffôl oedd cario lamp heb gario'u holew eu hunain hefyd. Pan mae pawb yn ceisio tanio'r lampau, mae lampau'r pump ffôl yn tanio am eiliad, oherwydd bod y wic yn dal yn llaith, mae'n debyg, ond yn fuan iawn maen nhw'n dechrau diffodd.

Yr esboniad ar hyn sydd yn gwneud synnwyr i mi yw mai Cristnogaeth allanol yw'r lampau. Mae hyn yn cynnwys Gair Duw, gweddi, addoliad a thraddodiadau eglwysig. Mae'r olew yn cynrychioli ffydd fyw, bersonol yn y Gwaredwr. Dyma fywyd yr Ysbryd Glân sydd yn goleuo ac yn bywhau y moddion gras. Dyma fydd Iesu yn ei geisio ynom pan fydd ef yn dod yn ôl (ad.12).

Y dyfodiad

Ymhen hir a hwyr, mae'r priodfab yn cyrraedd, ac mae bloedd i'r perwyl hynny'n deffro pawb. Mae'r merched yn paratoi eu lampau, ond diffodd mae golau'r pump ffôl. Nawr maen nhw'n ceisio dibynnu ar olew y lleill, ond wnaiff hynny mo'r tro, oherwydd does dim digon.

Mae'r neges yma'n bwysig, sef na allwn fynd i mewn i deyrnas Dduw ar gefn ffydd a phrofiad rhywun arall; rhaid i ni gredu ein hunain, rhaid i ni'n bersonol adnabod y Gwaredwr nawr cyn iddi fod yn rhy hwyr.

Mae dyfodiad y priodfab yn dangos gwir gyflwr y genethod. Mae nhw'n cael eu gwahanu bryd hynny. Mae drws y briodas yn gaeedig i'r rhai oedd heb fod yn barod. Ailddyfodiad Iesu yn unig fydd yn dangos gwir gyflwr ei bobl. Bydd drws y nef wedi cau i'r sawl sydd â chrefydd allanol yn unig.

Byddwn barod

Felly, mae neges y ddameg yn eglur. Rhaid i ni fod yn barod ar gyfer dyfodiad Crist ein Priod i'r byd. Yn ôl Paul, rhaid i ni dderbyn gras Duw, rhaid i ni dderbyn Crist a'i rodd o fywyd tragwyddol, ei faddeuant, ei gyfiawnder, ei heddwch a'i dangnefedd; rhaid i ni **"ymwrthod ag annuwioldeb a chwantau bydol, a byw'n ddisgybledig a chyfiawn a duwiol yn y byd presennol, a disgwyl cyflawni'r gobaith gwynfydedig yn ymddangosiad gogoniant ein Duw mawr a'n Gwaredwr, Iesu Grist"** (Titus 2:11-13).